| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 18 Gorffennaf 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Julian Thompson-Hill |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Richard Weigh, Pennaeth Cyllid |
| **Teitl:** | **Grŵp Buddsoddi Strategol - Cylch Gorchwyl** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn grŵp o aelodau etholedig/swyddogion, sy'n gwerthuso cynigion ar gyfer gwariant cyfalaf. Mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys pwerau wedi'u dirprwyo ac felly dylid eu hail-gadarnhau gan y Cabinet cyfredol. Mae angen diweddaru'r cylch gorchwyl hefyd yn fwy cyffredinol, i adlewyrch arferion cyfredol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Dylai'r weinyddiaeth newydd ail-gadarnhau'r dirprwyaethau a roddwyd gan y Cabinet yn flaenorol, fel bod rôl a swyddogaethau'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn glir.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cabinet yn cymeradwyo Cylch Gorchwyl y Grŵp Buddsoddi Cyfalaf (Atodiad 1).

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Ffurfiwyd y Grŵp Buddsoddi Strategol (y Grŵp Strategaeth Cyfalaf o'r blaen) yn 2007, gyda'r prif bwrpas o asesu a blaenoriaethu cynigion ar gyfer prosiectau gwariant cyfalaf.

4.2 Fel y dangosir yn y Cylch Gorchwyl arfaethedig (Atodiad 1), mae'n cynnwys tri aelod cabinet (yn cynnwys yr Arweinydd a'r aelod arweiniol sy'n gyfrifol am Gyllid), yn ogystal â chynrychiolwyr o bob un o'r tri phwyllgor archwilio. Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn perfformio rôl bwysig yn asesu ac yn herio achosion busnes ar gyfer pob cynnig gwariant cyfalaf. Mae'n asesu addasrwydd strategol, goblygiadau cost (cyfalaf a refeniw), gofynion cyllid ac effaith tymor hir pob cynnig cyfalaf. Mae hefyd yn darparu swyddogaeth porthora gan nad ydyw'r codau system cyllid a chaffael addas ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael eu rhyddhau, nes y cymeradwyir cynnig. Mae hyn yn atal unrhyw wariant cyfalaf heb ei ariannu a heb awdurdod rhag digwydd.

4.3 Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo dirprwyaethau i'r Grŵp Buddsoddi Strategol (neu ei ragflaenwyr) yn flaenorol, ac i CET i gymeradwyo lefelau amrywiol o wariant cyfalaf. Mae'r cymeradwyaethau hyn wedi'u hegluro nawr yn y Cylch Gorchwyl amgaeedig.

4.4 Ymhelaethir ar gymeradwyo gwariant cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai yn y Cylch Gorchwyl sydd wedi'i ddiweddaru. Mae hyn er mwyn adlewyrchu'r gweithgaredd ychwanegol sy'n cael ei wneud o fewn y Cynllun Busnes Stoc Tai, yn dilyn diwedd y system cymhorthdal tai a chyflwyno 'hunan-ariannu' yn 2015.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'n rhaid i'r cyngor gael proses blaenoriaethu cyfalaf effeithiol ar waith i helpu er mwyn sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi cyfalaf yn cefnogi blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes cost ychwanegol yn deillio o ddiweddaru'r Cylch Gorchwyl. Mae pob cynnig i'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn dempled achos busnes safonol, sy'n cynnwys ystyriaeth o gostau a chyllid, yn ogystal ag effaith ar feysydd eraill, fel TGCh, y Gyfraith, Bioamrywiaeth, effeithiau ar yr amgylchedd, eiddo corfforaethol.

.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

7.1 Mae'n ofynnol (fel yr adlewyrchir yn y Cylch Gorchwyl sy'n amgaeedig), bod pob cynnig a gyflwynir i'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn cynnwys Asesiad o Effaith ar Les.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae'r Cylch Gorchwyl diwygiedig yn cynnal cynrychiolaeth bresennol y cabinet ac aelodau craffu.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Mae'n bwysig bod gan y cyngor ffyrdd effeithiol o asesu a blaenoriaethu cynigion buddsoddi cyfalaf, a bod hyn wedi'i gyflawni gan y Grŵp Buddsoddi Cyfalaf. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod proffiliau dirprwyo'n glir ac yn cael eu cadarnhau gan y cabinet cyfredol. Bydd y cylch gorchwyl wedi'i ddiweddaru'n sicrhau bod y Grŵp Buddsoddi Cyfalaf yn parhau i roi asesiad effeithiol a swyddogaeth rheoli mewnol.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Heb asesiadau cadarn a phrosesau cymeradwyo, mae'r cyngor mewn perygl o wneud penderfyniadau buddsoddi cyfalaf annoeth neu sydd ddim yn gynaliadwy, ac efallai nad ydynt yn unol â blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 13 Deddf Llywodraeth Leol (2000).

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.